# Timothy Riley – Dirprwy Gadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yn amlinellu hanes proffesiynol aelodau ein bwrdd ac yn rhoi manylion unrhyw ddiddordebau busnes sydd ganddynt er mwyn sicrhau tryloywder.



## Proffil

Mae Timothy Riley yn ffermwr da byw yng Ngorllewin Swydd Efrog, ac mae'n frwd dros gynhyrchu cig eidion a chig oen amgylcheddol gynaliadwy ar dir porfa. Mae'n cadw buches Pedigree Beef Shorthorn ac ef yw Llywydd Cymdeithas Gwartheg Eidion Shorthorn y DU.

Mae'n Gyfarwyddwr Bwrdd profiadol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Ef yw Cyfarwyddwr Anweithredol Better2Know Limited; Cadeirydd Gweithredol Wellstate HTA Limited (Ymgynghoriaeth Technoleg ac Economeg Iechyd); Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd ARAC i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol ac mae'n aelod o Bwyllgor Geneteg Da Byw a Cheffylau'r DU.

Bu Timothy yn gwasanaethu fel Uwch Was Sifil yn y DHSC ac arweiniodd fentrau proffil uchel gan gynnwys sefydlu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ynghyd â nifer o fentrau polisi a gwasanaethau iechyd eraill mewn perthynas â safonau clinigol ac effeithiolrwydd cost. Dros y 12 mlynedd nesaf, roedd yn Brif Weithredwr i dair Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol y GIG ac yn Aelod o Fwrdd Seinio Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd y DU. Arweiniodd Gymdeithas Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol Manceinion a gwasanaethodd ar Fforwm Dyfodol y Prif Weinidog, ac roedd yn gyd-awdur adroddiad y Fforwm, "The NHS Role in Public Health".

Mae gan Timothy PhD mewn Imiwnoleg Foleciwlaidd o Goleg y Brenin, Prifysgol Caergrawnt, a dechreuodd ei fywyd proffesiynol fel Gwyddonydd Academaidd gyda Chymrodoriaethau Ymchwil yng Nghaergrawnt ac yn Llundain.

## Cofrestr

Gofynnir i Aelodau Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ddatgan unrhyw fuddiannau neu fuddiannau partïon cysylltiedig sy'n berthnasol i waith yr ASB yn ogystal â phob cyflogaeth, gwaith a phenodiad allanol y ceir tâl amdanynt (p'un a ydynt yn berthnasol ai peidio).

Gall unigolyn fod â buddiannau eraill ac, er bod yr ASB yn ymwybodol o'r rhain, bernir nad ydynt yn berthnasol i rôl yr Aelodau ac felly nid ydynt o fewn y cwmpas ar gyfer cyhoeddi.

Mae'r adran yn rheoli'r holl fuddiannau perthnasol i atal y risg o wrthdaro buddiannau canfyddedig, posib neu wirioneddol.

- Ffermwr da byw cig eidion ac oen ar fferm deuluol yng Ngorllewin Swydd Efrog a thirfeddiannwr sy'n cael grant Menter Ffermio Cynaliadwy Uwch
- Aelod, Cymdeithas Amaethyddol Swydd Efrog
- Aelod, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
- Aelod o Fwrdd Cymdeithas Gwartheg Byrgorn Cig Eidion y DU
- Aelod a Chymrawd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Lloegr
- Aelod, Ymddiriedolaeth y Bridiau Prin